Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cynghrair Sgiliau Ansawdd Caerdydd a'r Fro (DYG)
# Heol Colcot
# Y Barri
# CF62 8YJ

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 27/02/2013**

## Cyd-destun

Prentisiaethau Coleg Caerdydd a'r Fro yw'r arweinydd consortiwm ar gyfer Consortiwm Coleg Caerdydd a'r Fro sydd wedi'i frandio fel y Cynghrair Sgiliau Ansawdd. Mae'r consortiwm yn gydweithrediad rhwng nifer o bartneriaid dysgu yn y gwaith a phartneriaid coleg addysg bellach, sef:

- Prentisiaethau Coleg Caerdydd a'r Fro;
- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr;
- Coleg Gwent;
- Y Coleg Ystrad Mynach;
- Building Engineering Services Training Ltd;
- Remit Ltd;
- Icon Training;
- Focus On;
- People Business Wales; a
- Cymdeithas Hyfforddiant Grŵp Casnewydd a'r Cylch.

Mae'r consortiwm yn cynnig rhaglenni hyfforddi i ddysgwyr mewn Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau, Hyfforddeiaethau a rhaglenni Camau at Waith. Gall dysgwyr ddewis o blith meysydd galwedigaethol fel:

- Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal;
- Amaethyddiaeth;
- Trin Gwallt a Harddwch;
- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig;
- Peirianneg; a
- Pharatoi ar gyfer Bywyd a Gwaith

Adeg yr arolygiad, roedd gan y consortiwm 2,200 o ddysgwyr yn dilyn y rhaglenni hyn. Mae llawer o brentisiaid wedi'u clystyru o amgylch ardal y Brifddinas a Bro Morgannwg. Yn yr ardaloedd hyn, mae rhyw 65% o'r boblogaeth yn cael eu cyflogi mewn gwaith amser llawn neu ran-amser. Nid oes unrhyw gymwysterau gan 9% o bobl o oed gweithio, ac mae 15% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae cyfradd y dysgwyr o ran ennill eu cymwysterau a chyflawni'r targedau a osodwyd yn eu cynlluniau dysgu unigol yn anfoddhaol. Mae data diweddar heb ei ddilysu o Awst 2012 i Hydref 2012 yn dangos nad yw partneriaid y consortiwm wedi gwella deilliannau dysgwyr yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

Nid oes trefniadau partneriaeth ddigon cadarn gan y consortiwm â'i isgontractwyr a chyflogwyr. Nid yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigon effeithiol, ac mae datblygiadau trefniadau ac arferion gweithio'r consortiwm wedi bod yn rhy araf. Nid yw'r gweithdrefnau a'r prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd wedi'u datblygu digon, ac nid ydynt wedi'u hymgorffori'n llawn ar draws y consortiwm. Mae partneriaid y consortiwm a'i is-gontractwr yn rhoi gwerth anfoddhaol am arian.

### Rhagolygon gwella

- mae'r rheolwyr a'r staff yn gweithio'n galed i wella cyfraddau cyrhaeddiad y dysgwyr;
- mae uwch reolwyr yn dechrau cyflwyno prosesau a gweithdrefnau safonedig fesul cam ar draws y consortiwm;
- mae'r systemau ar gyfer rheoli a chasglu data yn dechrau gwella;
- mae partneriaid y consortiwm yn dechrau gweithio gyda'i gilydd gan rannu nod cyffredin;
- mae'r consortiwm yn datblygu prosesau a gweithdrefnau newydd ar gyfer sicrhau ansawdd; ac
- mae'r cyfathrebu rhwng partneriaid y consortiwm ac isgontractwyr yn dechrau gwella.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau'r holl ddysgwyr o ran cyflawni eu fframwaith cymwysterau llawn

A2 Cynllunio ac ymgorffori strategaethau yn llawn i wella medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr

A3 Hyrwyddo a gwella'r profiad dysgu i gynnwys datblygu medrau iaith Gymraeg, diwylliant Cymru ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF)

A4 Gwella ansawdd a chysondeb dysgu ac asesu ar draws y consortiwm

A5 Gwneud yn siŵr bod y consortiwm yn rhoi strategaeth gyffredinol briodol ar waith ar gyfer monitro a rheoli diogelu

A6 Gwneud yn siŵr bod rheolwyr ar bob lefel yn gweithredu amcanion strategol y consortiwm fel gweithgareddau gweithredol effeithiol

A7 Gwneud yn siŵr fod gweithredu prosesau ansawdd newydd yn effeithiol o ran gwella deilliannau'r dysgwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn mynnu bod partneriaid y consortiwm yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad yn ei gynllun gwella i'r AdAS fel rhan o'r cylch cynllunio gwelliant rheolaidd. Bydd Estyn yn ail-arolygu'r consortiwm ymhen rhyw flwyddyn o'r arolygiad hwn. Hefyd, bydd swyddogion cyswllt Estyn yn monitro cynnydd y consortiwm yn y cyfnod yn arwain i fyny at yr ailarolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

At ei gilydd, yn y cyfnod 2008 i 2011 roedd cyfraddau'r dysgwyr o ran ennill eu fframwaith cymwysterau yn ddigonol. Fodd bynnag, yn 2010-2011, roedd cyfraddau llwyddo ar gyfer mwyafrif partneriaid y consortiwm islaw'r cymaryddion cenedlaethol, ac roedd cyfraddau llwyddo ar gyfer bron hanner y sectorau galwedigaethol yn is na chyfartaleddau'r sector yn y ddwy raglen Prentisiaeth.

Mae cyfraddau llwyddo mewn meysydd pwnc unigol yn amrywio'n fawr rhwng partneriaid y consortiwm. Er enghraifft, yn y Prentisiaethau Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig, y gyfradd lwyddo yn 2010-2011 yn Building Engineering Services Training Ltd oedd 100%, ond 47% oedd y gyfradd lwyddo yng Ngholeg Glan Hafren.

Yn yr un modd, mae cyfraddau llwyddo mewn partneriaid unigol y consortiwm wedi bod yn anghyson hefyd. Er enghraifft, mewn Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu yn Retail Motor Industry Training Ltd, y gyfradd lwyddo i Brentisiaid yn 2010-11 oedd 100%, ond 35% oedd y gyfradd lwyddo i Brentisiaid Modern Sylfaen.

At ei gilydd, yn y cyfnod 2008 i 2011, roedd nifer y dysgwyr Adeiladu Sgiliau a wnaeth gynnydd cadarnhaol yn anfoddhaol ac yn anghyson ar draws partneriaid y consortiwm. Fodd bynnag, mae data heb ei ddilysu o Awst 2011 hyd nawr yn dangos gwelliant mewn rhaglenni cyflogadwyedd.

Mae data heb ei ddilysu o Awst 2011 hyd nawr yn dangos bod cyfraddau llwyddo'r dysgwyr wedi dirywio ar draws yr holl raglenni. Mae bron pob un o'r partneriaid yn y consortiwm yn dangos cyfraddau llwyddo sydd islaw cymaryddion cenedlaethol y llynedd, ac mae perfformiad cyffredinol yn sylweddol islaw'r cymaryddion cenedlaethol ar gyfer Prentisiaethau Modern Sylfaen, ac ychydig islaw ar gyfer Prentisiaethau.

Mae ychydig o'r dysgwyr presennol yn gwneud cynnydd da yn eu rhaglenni hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwybod yn glir faint o gynnydd maent wedi'i wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i gwblhau'u rhaglen hyfforddi. Mae llawer o'r dysgwyr yn caffael gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth newydd yn gyflym, ac yn cymhwyso'r rhain yn eu gwaith ymarferol a'u gwaith theori.

Mae portffolios y dysgwyr o safon ddigonol yn gyffredinol. Maent yn cynnwys amrediad priodol o dystiolaeth amrywiol, gan gynnwys tystiolaeth tystion, taflenni gwaith wedi'u cwblhau, DVDau a thystiolaeth ffotograffig. Fodd bynnag, mae lleiafrif o bortffolios yn gynnwys enghreifftiau o sillafu, atalnodi neu ramadeg gwael.

Yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu, mae dysgwyr yn ennill cymwysterau ychwanegol sy'n ehangu'u dewis o swyddi ac yn eu gwneud yn fwy cyflogadwy.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn grwpiau. Maent yn defnyddio iaith dechnegol yn hyderus a gyda dealltwriaeth. Maent yn rhoi esboniadau clir ynglŷn â'u gwaith, ac yn dangos hyder wrth ddefnyddio'r medrau maent yn eu dysgu. Mae ychydig iawn ohonynt yn dangos ymwybyddiaeth dda o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae lleiafrif y dysgwyr, y rheini ar y rhaglenni hyfforddi lefel uwch yn bennaf, yn ysgrifennu'n dda. Maent yn defnyddio atalnodi'n briodol ac mae eu cystrawen yn dda. Maent yn sillafu geiriau technegol yn gywir yn eu gwaith. Fodd bynnag, ar draws bron pob lefel arall, nid yw'r dysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd yn gyson. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn dibynnu gormod ar eu hasesydd i gywiro gwaith drostynt, ac nid ydynt yn datblygu medrau prawfddarllen effeithiol.

Dim ond lleiafrif o ddysgwyr sy'n defnyddio medrau rhifedd yn dda yn eu rhaglenni hyfforddi. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn gallu gwneud cyfrifiadau mathemateg lefel uwch oherwydd diffyg medrau llythrennedd sylfaenol.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel nad yw'n cyfateb yn ddigon da i'w lefel medrau bresennol. Mae ychydig o ddysgwyr yn ailadrodd cymwysterau ar lefel maent eisoes wedi'i hennill. Nid yw dysgwyr gallu uwch yn cael eu herio'n ddigon da i gyflawni hyd orau eu gallu.

Nid oes targedau llythrennedd a rhifedd penodol gan y rhan fwyaf o ddysgwyr, ac nid ydynt yn ymwybodol o'r medrau penodol y mae angen iddynt eu datblygu.

Nid yw aelodau'r consortiwm yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi anghenion iaith Gymraeg y dysgwyr. Mae ychydig o ddysgwyr yn elwa o gael eu hasesu yn Gymraeg. At ei gilydd, nid yw aelodau'r consortiwm yn gwneud digon i ehangu gwybodaeth y dysgwyr am Gymru a'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Lles: Da**

Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel yn amgylchedd eu gweithle a'u canolfan hyfforddi. Dangosant ddealltwriaeth dda o ofynion iechyd a diogelwch eu gwaith. Mae mwyafrif y dysgwyr wedi datblygu dealltwriaeth well o ffyrdd iach o fyw a bwyta'n iach o'u rhaglen hyfforddi. Mae'r dysgwyr ar hyfforddeiaethau yn gwella'u hyder o sylfaen isel iawn weithiau. Maent yn dysgu i weithio gyda'i gilydd yn dda, ac yn darparu cymorth da i'w gilydd mewn tasgau tîm.

Dywedodd pob un o'r dysgwyr a gafodd eu cyfweld eu bod yn mwynhau'u rhaglen hyfforddi ac y byddent yn argymell y rhaglen i ddysgwyr eraill. Mae mwyafrif ohonynt yn gadarnhaol ynglŷn â'r effaith y mae eu hyfforddiant yn ei chael ar eu medrau cyflogaeth ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu perthynas dda gyda chyflogwyr ac aseswyr. Mae presenoldeb yn dda mewn hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn gweithio ar brosiect cymunedol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys dylunio a gweithgynhyrchu cerfluniau a fydd yn cael eu gosod yn y gymuned leol. Mewn ychydig o achosion, roedd y dysgwyr yn gallu rhoi enghreifftiau o ble'r oeddent wedi dylanwadu ar yr asesu a'r

amserlen gweithgareddau mewn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydnabod y gofynnir iddynt am eu barn. Cawsant adborth mewn ychydig o achosion ynglŷn â sut roedd partneriaid y consortiwm wedi defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r profiad hyfforddi a dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

I bob un o'r dysgwyr, mae partneriaid y consortiwm a'r is-gontractwyr yn cynnig taith ddysgu hyblyg. Caiff ei chynnig ym mhob un o'r meysydd dysgu, ar lefelau gwahanol a gyda dewis o leoliad. Gall y dysgwyr symud yn hawdd o amgylch y ddarpariaeth i gyflawni medrau o fewn eu rhaglen hyfforddi. Mae'r ffaith fod cymwysterau ychwanegol ar gael mewn pynciau fel trafod â llaw a diogelwch ar safleoedd adeiladu, yn gwella cyfleoedd dysgwyr o gael eu cyflogi.

Mae llawer o gyflogwyr yn gwerthfawrogi gwaith y consortiwm o ran eu helpu i gyflawni'u nodau busnes. Mae'n ymateb i'w hanghenion ac, o ganlyniad, mae wedi datblygu cyrsiau newydd, defnyddiol. Mae rhai o'r rhain mewn meysydd arbenigol, fel aerdymheru a rheweiddio.

Mae ychydig o enghreifftiau da o'r consortiwm yn datblygu medrau hanfodol dysgwyr. Er enghraifft, mae tua hanner y prentisiaid sylfaen yn cyflawni medrau hanfodol ar lefel uwch na hynny sy'n ofynnol ar gyfer eu fframwaith cymwysterau. Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r consortiwm ar gyfer gwella medrau hanfodol y dysgwyr yn ddigon effeithiol ar y cyfan. Cynnydd araf mae wedi'i wneud wrth safoni trefniadau asesu a defnyddio canlyniadau'r rhain at ddibenion cynllunio. Nid yw tiwtoriaid a staff hyfforddi yn talu digon o sylw i ddatblygu medrau ac maent yn colli gormod o gyfleoedd i osod llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destun mewn meysydd dysgu.

Yn gyffredinol, nid yw partneriaid y consortiwm yn dadansoddi anghenion iaith Gymraeg y dysgwyr yn ddigon da. Mae ychydig o ddysgwyr yn elwa o gael eu hasesu yn Gymraeg. Nid yw hyn yn gyson ar draws partneriaid y consortiwm, fodd bynnag. Collir cyfleoedd mewn llawer o achosion i siaradwyr Cymraeg gwblhau gwaith cwrs ac asesiadau yn Gymraeg.

Mae hyrwyddwyr dwyieithog yn cydweithredu'n dda i rannu arfer dda. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r mentrau ac nid ydynt yn cael eu cyflwyno ar draws y consortiwm i gynnig yr un cyfleoedd i bob dysgwr.

Mae ychydig o ddysgwyr yn cael cyfleoedd da i ddysgu am addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF). Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn ymweliadau rhyngwladol neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian at elusen. Mae hyn yn ehangu'u profiadau yn dda. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon ar waith y consortiwm wedi'i hymgorffori'n ddigon da ar draws holl bartneriaid y consortiwm, a dim ond mewn ychydig o enghreifftiau y mae ADCDF wedi cael ei osod yn effeithiol yn ei gyd-destun yn y meysydd dysgu.

## Addysgu: Anfoddhaol

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn anfoddhaol.

Mae llawer o'r tiwtoriaid a'r staff hyfforddi yn cynllunio amrywiaeth dda o brofiadau dysgu i ffwrdd o'r gwaith ac yn y gwaith i'r dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw llawer o gynlluniau gwersi'n cyfeirio at gyfleoedd medrau hanfodol i helpu dysgwyr i ddatblygu'u medrau. Mewn llawer o sesiynau, nid yw'r tiwtoriaid yn gwirio gwaith y dysgwyr am gywirdeb, ac nid oes digon o sylw'n cael ei roi i gywiro sillafu, atalnodi a gramadeg.

Mae gan bron yr holl diwtoriaid ac aseswyr wybodaeth bynciol a medrau cyfoes. Mae llawer o aseswyr yn defnyddio'u profiad diwydiannol yn dda ac yn cynnig lefelau cymorth da i'r dysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf o'r tiwtoriaid a'r aseswyr berthynas dda â dysgwyr. Ond mewn ychydig o sesiynau a addysgir, fodd bynnag, nid yw targedau bob amser yn benodol ac yn ddigon heriol i ddysgwyr.

Yn gyffredinol, mae'r adnoddau ar gyfer hyfforddi ac addysgu o ansawdd da. Ond nid yw lleiafrif o'r adnoddau hyn yn cael eu cyflwyno'n dda. Nid yw llawer o ddogfennau ysgrifenedig ar lefel addas o ddarllenadwyedd i alluogi dysgwyr i'w deall.

Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau addysgu, mae tiwtoriaid yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu yn dda. Fodd bynnag, collir nifer o gyfleoedd i gysylltu'r cwricwlwm ehangach a medrau dysgwyr. Mae'r defnydd o gwestiynau caeedig mewn ychydig o sesiynau yn cyfyngu ar gyfle'r tiwtoriaid i wirio bod y dysgwyr yn deall yr hyn sy'n cael ei addysgu. Dim ond nifer fach o diwtoriaid oedd yn annog medrau meddwl ar lefel uwch ac yn defnyddio cwestiynau treiddgar i asesu a herio'r dysgwyr.

Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn dysgu medrau ymarferol newydd sy'n addas ar gyfer y gweithle. Er enghraifft, disgrifiodd un dysgwr sut mae'r medrau a ddysgodd mewn sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith wedi'i alluogi i wneud gwaith mwy cymhleth gyda'i gyflogwr. Mewn enghraifft arall, fe wnaeth cyflogwr ddisgrifio sut oedd ei brentis bellach yn gallu gwneud gwaith canfod diffygion trydanol ar gerbydau nwyddau trwm.

Mae asesu dysgu yn anfoddhaol. Nid yw llawer o aseswyr a staff hyfforddi yn cynnwys y dysgwyr yn ddigon da wrth osod a chytuno targedau asesu, ac, o ganlyniad, nid yw'r dysgwyr yn aml yn cwblhau'u cymwysterau mewn pryd. Nid yw llawer o aseswyr yn rhoi digon o adborth ysgrifenedig arfarnol yn ffurfiol i'r dysgwyr i'w helpu i wella a gwneud cynnydd. Pan fydd adborth ysgrifenedig yn cael ei roi, nid yw bob amser yn ddigon penodol, wedi'i gyfyngu gan amser, ac yn heriol. At ei gilydd, nid yw aseswyr yn gosod digon o dargedau ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Pan fydd targedau'n cael eu gosod i'r dysgwyr, nid oes neb yn mynd ar drywydd y rhain yn aml.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

At ei gilydd, mae partneriaid y consortiwm yn hyrwyddo iechyd a lles i safon briodol. Mae llawer o aseswyr a thiwtoriaid yn trafod materion pwysig yn rheolaidd gyda'r dysgwyr, fel bwlio ac aflonyddu, iechyd a diogelwch a dewisiadau ffordd iach o fyw.

Mae aseswyr yn defnyddio'r dogfennau adolygu cynnydd a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn dda i ysgogi trafodaeth a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o faterion cyffredinol yn ymwneud â lles.

Mae partneriaid y consortiwm yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i'r dysgwyr cyn iddynt ddechrau ar eu hyfforddiant. Mae mwyafrif y dysgwyr a gafodd eu cyfweld yn deall gofynion eu rhaglen unigol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr, fodd bynnag, yn defnyddio'r wybodaeth yn gyson yn eu llawlyfrau sefydlu ac nid ydynt yn gwybod am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Mae aseswyr a thiwtoriaid yn cynorthwyo'r dysgwyr yn dda i gyflawni'u nodau hyfforddi a dysgu. Ond mae'r cymorth i ddysgwyr i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn anghyson.

Nid yw'r staff yn nodi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn ddigon da ar ddechrau'u rhaglen hyfforddi. Nid yw cymorth i ddysgwyr yn cael ei gynllunio'n systematig rhwng aseswyr, cydlynwyr ac adrannau cymorth. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr bob amser yn elwa o gymorth dysgu mwy arbenigol i'w galluogi i ddatblygu a gwneud cynnydd hyd orau eu gallu.

Mae partneriaid y consortiwm yn cynnig amrywiaeth eang o ddewisiadau cymorth i'r dysgwyr hynny y nodwyd bob angen cymorth ychwanegol arnynt. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig, fodd bynnag.

Ar hyn o bryd nid yw partneriaid y consortiwm yn cynllunio'n ddigon da i fonitro ac olrhain nifer y dysgwyr y mae angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt, a nifer y dysgwyr sy'n cael y cymorth hwnnw, nac effaith y cymorth a ddarperir ar gyflawniad a deilliannau'r dysgwyr.

Mae gan bob un o aelodau'r consortiwm eu polisïau a'u gweithdrefnau unigol eu hunain ar gyfer rheoli diogelu, gan gynnwys recriwtio'n ddiogel, a'u trefniadau eu hunain ar gyfer hyfforddi staff. Mae'r consortiwm wedi dechrau archwilio'r trefniadau hyn yn ddiweddar, ond mae'n rhy gynnar eto i'r consortiwm farnu a ydynt yn briodol.

Mae'r consortiwm wedi cynhyrchu dogfen 'gweithdrefnau' gyffredin ar gyfer diogelu sy'n amlinellu ar lefel sylfaenol pa gamau gweithredu y dylai unigolion eu cymryd neu beidio â'u cymryd. Nid oes digon o fanylion yn y ddogfen hon i weithredu fel arweinydd corfforaethol i holl aelodau'r consortiwm ac isgontractwyr.

Mae ychydig o diwtoriaid ac aseswyr naill ai ddim yn gwybod yn ddigon da beth sydd angen iddynt ei wneud os oes ganddynt bryderon diogelu, neu nid ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant ar ddiogelu. Mae partneriaid unigol y consortiwm yn mynd ati i gynnal eu hyfforddiant diogelu eu hunain. At ei gilydd, nid yw'r trefniadau yn y consortiwm yn ddigon cadarn eto o ran monitro'r niferoedd sy'n ymgymryd â hyfforddiant, i sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol wedi mynychu cyrsiau diogelu ar lefelau priodol.

Mae'r rhan fwyaf o aelodau unigol y consortiwm wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion ar gyfer diogelu a nodwyd ar eu cyfer mewn arolygiadau blaenorol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Er bod polisïau gan bob partner yn y consortiwm yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, nid oes un polisi cyffredinol ar gyfer y consortiwm cyfan.

Mae pob un o'r cyrsiau a'r rhan fwyaf o'r sesiynau hyfforddi yn cynnwys modiwlau ar gyfle cyfartal, amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae grŵp monitro ansawdd y consortiwm yn monitro cofnodion adolygu pob un o'r dysgwyr i sicrhau bod y meysydd hyn wedi'u nodi a'u cofnodi'n rhai sydd wedi'u trafod. Ble bynnag mae hyn yn eisiau o'r cofnod, mae'r grŵp ansawdd yn mynd ar drywydd hyn gyda'r tiwtor, yr asesydd a'r cyflogwr. Fodd bynnag, nid oes proses effeithiol ar waith gan y consortiwm i fonitro dealltwriaeth y dysgwyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth o ganlyniad i'w rhaglen.

Mae'r un gweithdrefnau monitro hyn yn cael eu defnyddio hefyd i asesu profiadau dysgwyr, gan gynnwys adnabod achosion o wahaniaethu ac aflonyddu. Mae boddhad dysgwyr yn cael ei fesur hefyd drwy arfarnu canlyniadau holiaduron dysgwyr partneriaid y consortiwm. Nid yw canlyniadau'r monitro hwn yn cael eu rhannu'n ddigon da, fodd bynnag, drwy adroddiadau rheolaidd i bartneriaid y consortiwm.

Yn ddiweddar iawn, aethpwyd ati i fonitro data'r consortiwm ar gydraddoldeb, a gwnaed rhywfaint o arfarnu cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad a ddeilliodd o hynny yn syml ac arwynebol. Nid yw'n mynd ati i gwestiynu'r data'n fanwl er mwyn nodi heriau a gwersi i bartneriaid. Nid yw'n nodi'n ddigon clir pa mor dda mae dysgwyr o grwpiau lleiafrifol yn symud ymlaen yn eu maes galwedigaethol, na sut mae eu cyrhaeddiad yn cymharu â chyrhaeddiad eu cyfoedion.

Mae campysau colegau yn gwneud defnydd da o hysbysfyrddau a waliau mewn mannau cyhoeddus i hyrwyddo diogelwch personol, cyfle cyfartal ac amrywiaeth trwy bosteri llawn gwybodaeth sydd wedi'u dylunio'n dda. Yn ddigon tebyg, yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd dosbarth a gweithleoedd, gwneir defnydd da o fannau arddangos ar gyfer posteri sy'n hybu iechyd a diogelwch ac arferion gweithio da. Mewn ychydig o achosion, mae deunyddiau adnoddau yn yr ystafelloedd dosbarth yn briodol, a gall pob un o'r dysgwyr fanteisio ar werslyfrau cyrsiau a deunyddiau dysgu.

Mae'r ddarpariaeth mae colegau yn ei chynnig mewn ystafelloedd dosbarth o ansawdd da yn gyffredinol, ac mae cyfleoedd i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol ac offer arbenigol eraill. Nid yw hyn yn wir bob amser mewn lleoliadau gwaith, fodd bynnag. Er enghraifft, roedd safon glendid gwael mewn un gegin, ac nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i waith cadw tŷ mewn ardal storio.

Mae'r hyfforddiant yn y gweithle yn dda yn gyffredinol. Mae'r dysgwyr yn cael cyfle da i ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar y mae eu hangen arnynt i gefnogi'u dysgu.

Yn gyffredinol, mae lleoliadau gwaith yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu medrau ymarferol, ac mae hyn yn galluogi'r dysgwyr i ehangu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u llwybr galwedigaethol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r consortiwm wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Strategol, ac mae'n cael ei arwain ganddo. Mae aelodaeth y Bwrdd Strategol yn cynnwys cynrychiolydd o bob partner y consortiwm. Cefnogir y Bwrdd Strategol gan Fwrdd Rheoli Gweithredol ac mae ganddynt nodau ac amcanion clir ar gyfer dwyn y consortiwm yn ei flaen. Sefydlwyd amrywiaeth o weithgorau defnyddiol, ac mae ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu agweddau allweddol ar waith y consortiwm. Mae'r ddau Fwrdd yn dangos ymrwymiad cadarn i wella safonau a pherfformiad y consortiwm. Nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyrhaeddiad y dysgwyr, fodd bynnag, ac nid yw'r gwaith hwn wedi cael fawr o effaith hyd yma.

Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn cyfarfod bob deufis i adolygu cynnydd yn erbyn targedau ac i dderbyn adroddiadau manwl o gyfarfodydd misol y Bwrdd Gweithredol. Mae wedi datblygu a sefydlu 'cytundeb cydweithredu' cynhwysfawr a ddefnyddir ar draws y consortiwm. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi datblygu gweledigaeth tair blynedd o 'sut beth fydd llwyddiant' fel rhan o gynllun strategol cyffredinol. Mae'r grŵp ansawdd a sefydlwyd yn ddiweddar yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun hwn drwy'r cynllun datblygu ansawdd ac adroddiadau cynnydd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith lawn y strategaethau hyn ar yr amrywiaeth eang o weithgareddau hyfforddi ar draws y consortiwm.

Ers i'r consortiwm gael ei sefydlu, nid oes ffocws digonol wedi'i roi ar wella safonau dysgwyr a chyfraddau'r dysgwyr o ran cyflawni'u fframweithiau cymwysterau llawn a chymwysterau eraill.

Mae cyfathrebu'n gwella ar draws partneriaid y consortiwm a'r isgontractwyr. Mae partneriaid y consortiwm yn gweithio'n dda â'i gilydd i ddatblygu ethos o ymddiried a chefnogi. Mae ystod ddefnyddiol o gyfarfodydd rheolaidd yn effeithiol o ran rhannu gwybodaeth ar draws partneriaid. Ond nid yw llawer o'r staff, ar bob lefel, yn ymwybodol eu bod yn gweithio o fewn partneriaeth consortiwm ac nid ydynt yn gwybod am y buddion sydd gan y bartneriaeth hon i'w cynnig. Er enghraifft, nid yw staff hyfforddi'n cael cyfleoedd i rannu arfer orau nac adnoddau addysgu a dysgu.

Mae partneriaid y consortiwm wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae aelodau partneriaeth y consortiwm yn cyfrannu at ystod eang o fentrau lleol a chenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae rheolwyr ym mhartneriaeth y consortiwm yn cael eu cynnwys yn weithredol mewn cyrff lleol a chenedlaethol, sy'n cynnwys y rhwydwaith 14-19 lleol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Nid yw'r gweithgarwch hwn wedi gwella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr eto, fodd bynnag, na'u parodrwydd i symud ymlaen at lefelau hyfforddiant uwch neu i mewn i gyflogaeth.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Yn dilyn adolygiad diweddar o strwythur trefniadol y consortiwm, rhoddwyd prosesau newydd ar waith ar gyfer monitro a datblygu ansawdd. O ganlyniad, mae partneriaid

y consortiwm wedi datblygu nifer o weithdrefnau defnyddiol a phriodol ar gyfer safoni gweithgareddau sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys ffurflen gais safonedig, cynllun dysgu unigol, templed hunanasesu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch.

Mae pob un o'r isgontractwyr a phartneriaid y consortiwm wedi defnyddio cwestiynau craidd safonedig i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr ynghylch ansawdd y ddarpariaeth. Mae rheolwyr a staff yn dadansoddi canlyniadau'r holiaduron hyn yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio canlyniadau'r arolwg i ddatblygu gwelliannau, yn enwedig cyrhaeddiad dysgwyr.

Megis dechrau cael eu datblygu y mae'r prosesau hunanasesu ar gyfer y consortiwm. Mae'r adroddiad hunanasesu a luniwyd cyn yr arolygiad hwn yn fanwl iawn ac yn rhy ddisgrifiadol. Nid yw'n rhoi sylwadau arfarnol gyda thystiolaeth ategol. Mae'r data a ddefnyddiwyd i wneud yr arfarniadau yn anghywir, ac mae llawer o'r arfarniadau'n ddyfaliadol.

Nid yw partneriaid y consortiwm yn gwneud digon i fonitro perfformiad nac i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chymwysterau fframwaith y dysgwyr nad ydynt yn cael eu cyflawni mewn pryd.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn cynnwys uchelgeisiau ar gyfer gwella, a phe bai'r rhain wedi'u cyflawni'n llawn, dylent fod wedi arwain at welliant yn y cymwysterau a gyflawnir gan y dysgwyr. Mae'r diweddariad cynnydd diweddar i'r cynllun datblygu ansawdd yn cydnabod mai ychydig o'r targedau hyn sydd wedi'u cyflawni, ac mai nifer gyfyngedig o gamau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith.

Mae strwythur trefniadol newydd y consortiwm wedi galluogi partneriaid y consortiwm i weithio gyda'i gilydd a helpu datblygu medrau staff y consortiwm. Mae'r rhwydweithio hwn yn dechrau galluogi staff a thimau i weithio'n agosach â'i gilydd er bydd y consortiwm cyfan yn y dyfodol.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae gan y consortiwm ystod briodol o bartneriaid ac isgontractwyr sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda. Mae partneriaid y consortiwm wedi datblygu grŵp strategol effeithiol sy'n adeiladu ar ymddiriedaeth ac yn gweithio'n agored a chynhwysol. Mae'r consortiwm yn ceisio sicrhau bod buddiannau'r dysgwr wrth graidd trefniadau gweithio partneriaeth y consortiwm; ond nid yw'r dyhead hwn yn arwain at gwblhau na chyflawni cymwysterau mewn pryd. Mae partneriaid y consortiwm yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr lleol. Mae hyn yn cynnwys cyfranogi mewn nifer o brosiectau strategol sy'n bwysig yn rhanbarthol, fel datblygu economi wybodaeth i ddarparu cymorth â ffocws i helpu datblygu busnesau bach. Nid yw gwaith y consortiwm gydag ysgolion wedi'i ddatblygu gystal.

Mae perthynas partneriaid y consortiwm â'i isgontractwyr yn parhau yn waith sy'n mynd yn ei flaen. Dim ond ychydig o'r 15 o isgontractwyr a drefnodd eu bod ar gael ar gyfer cyfarfod gyda'r tîm arolygu. Teimlai'r rheiny a fynychodd y cyfarfod fod eu cysylltiad â'r consortiwm wedi eu galluogi nhw i ganolbwyntio mwy ar fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr. Y rheswm pennaf am hyn yw gwelliannau yn yr agweddau gweinyddol ymarferol ar eu busnes, fel cyflwyno dogfennaeth generig a defnyddio'r cynllun dysgu unigol a'r ffurflen adolygu yn dda yn y broses sefydlu.

O ganlyniad i sefydlu'r consortiwm, mae amrywiaeth ehangach o gyfleoedd ar gael i ddysgwyr erbyn hyn. Mae isgontractwyr a phartneriaid y consortiwm yn teimlo eu bod yn gallu cyfeirio dysgwyr a chyflogwyr yn well at y sefydliad mwyaf priodol i ddiwallu'u hanghenion. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth glir o nodau ac amcanion y consortiwm gan staff mewn rhai partneriaid y consortiwm, isgontractwyr a chyflogwyr. Nid yw'r gwaith o rannu arfer dda er mwyn gwella cyflwyno hyfforddiant a chodi safonau i ddysgwyr wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau, cynllunio ariannol a threfniadau contractiol yn ddigon effeithiol o ran codi safonau dysgwyr. Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cyllid priodol gan holl bartneriaid y consortiwm ac is-gontractwyr yn y cyfnod cynnar hwn yng ngweithrediad y consortiwm. Mae cynlluniau yn eu lle gan arweinydd y consortiwm i gysylltu dyraniadau yn y dyfodol yn agosach â safonau dysgwyr, perfformiad ansawdd a nifer y dysgwyr ar y rhaglen hyfforddi.

Mae rhaglenni datblygu staff sydd wedi hen ymsefydlu ar waith gan bartneriaid y consortiwm ac is-gontractwyr. Mae partneriaid y consortiwm wedi dechrau mynychu gweithdai a seminarau gyda'i gilydd, ac mae hyn yn helpu gwella gweithio ar draws partneriaid. Maent hefyd wedi dechrau cyflwyno dogfennaeth safonedig. Mae polisi 'drws agored' gan bob partner ar gyfer eu staff i fynychu digwyddiadau hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw rhaglen datblygu staff ar draws y consortiwm wed'i datblygu'n llawn eto.

Mae cynlluniau ar waith gan bartneriaid y consortiwm i gydlynu'r trefniadau ar gyfer datblygu staff ar draws y consortiwm a gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Nid yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar hyn y bryd o ran gweithredu'r cynlluniau hyn yn eglur, ac mae'n rhy gynnar i farnu'r ansawdd a'r effaith.

Mae nifer briodol o staff cymwys a phrofiadol ar draws y consortiwm. Mae profiad diwydiannol a masnachol maith gan lawer o aelodau'r staff. Ond ychydig iawn o staff sy'n meddu ar y medrau i gynorthwyo addysgu a hyfforddi rhifedd a llythrennedd ar draws partneriaid y consortiwm neu'r is-gontractwyr.

Mae partneriaid y consortiwm a'r is-gontractwyr yn defnyddio staff yn briodol.

Mae safonau cyffredinol, a chyfraddau'r dysgwyr o ran cyflawni'u cymwysterau yn narpariaeth partneriaid y consortiwm a'i is-gontractwyr yn anfoddhaol. O ganlyniad, mae'r consortiwm a'i is-gontractwyr yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Llenwyd yr holiadur dysgwyr gan ryw 25% o’r dysgwyr sy’n hyfforddi ar hyn o bryd gyda phartneriaid y consortiwm a’r is-gontractwyr.

Dywedodd mwyafrif o’r dysgwyr hyn eu bod yn cael cymorth da a bod hyn yn eu helpu i wella’u medrau bywyd. Dywedodd llawer o ddysgwyr eu bod yn cael lleoliadau gwaith o ansawdd da a’u bod yn mwynhau eu dysgu. Dim ond hanner y dysgwyr a ddywedodd eu bod yn cael cyngor da pan fyddant yn gadael eu rhaglen hyfforddi.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sandra Barnard | Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Eleanor Davies | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Bernard O’Reilly | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| James Nelson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alma Noelle Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lawrence Wood | Arolygydd Cymheiriaid |
| Siân Wyn Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lewis Wynne Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vanessa Morgan | Enwebai’r Darparwr |